Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Deddf Trwyddedu 2003

## HYSBYSEBION AM GEISIADAU – NODIADAU CANLLAW

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am Fân Amrywiad un ai i Drwydded Eiddo neu Drwydded Eiddo Clwb, bydd angen i'r unigolyn sy'n gwneud y cais hysbysebu'r cais ar safle'r eiddo am gyfnod o ddim llai na 10 diwrnod yn olynol, gan ddechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod y cofnodwyd eich cais gyda'r Awdurdod hwn, y mae'n rhaid ei wneud fel y nodir isod:

a. Dim llai na maint A4

b. Yn wyn ei liw

c. Wedi ei argraffu'n glir mewn inc du/wedi ei deipio mewn maint ffont sydd yr un maint neu'n fwy na maint 16

Rhaid i'r hysbysiad gael ei arddangos fel a ganlyn:

a. Yn amlwg ar neu yn yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ble gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r eiddo, ac os bydd eiddo dros arwynebedd o fwy na 50 metr sgwâr, hysbysiad arall yn yr un ffurf ac yn unol â'r un gofynion bob pum deg metr ar hyd perimedr allanol yr eiddo sy'n ffinio ag unrhyw briffordd.

Mae sampl o'r hyn sydd i'w gynnwys yn y rhybudd a'r hysbyseb wedi ei nodi trosodd. SAMPL YN UNIG YW HWN, MAE'N RHAID I CHI GYDYMFFURFIO Â GOFYNION RHEOLIADAU 25 A 26 Y DDEDDF UCHOD.

Enghraifft o eiriad ar gyfer y rhybudd a'r hysbyseb:

Er gwybodaeth yn unig y cyhoeddwyd y ddogfen hon. Gweler y troednodyn isod am ganllawiau o ran gofynion y rhybudd.

# Deddf Trwyddedu 2003

# HYSBYSEBION AM GEISIADAU – NODIADAU CANLLAW

## Mân Amrywiad i Drwydded Eiddo dan Adran 41A Deddf Trwyddedu 2003 NEU Mân Amrywiad i Drwydded Eiddo Clwb dan Adran 86A Deddf Trwyddedu 2003

Enw'r Ymgeisydd neu'r Clwb:

Cyfeiriad yr Eiddo neu'r Clwb:

Cynigir amrywio'r drwydded eiddo/drwydded eiddo clwb (dilëwch fel bo'n briodol):

Gellir archwilio'r cais llawn trwy gysylltu ag Awdurdod Trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych:

Gellir cyflwyno sylwadau rhwng (2) a (3)

YN YSGRIFENEDIG AT yr Uwch Swyddog Trwyddedu yn:-

Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

E-bost – trwyddedu@sirddinbych.gov.uk

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll yn gysylltiedig â chais ac mae uchafswm y ddirwy i'w thalu ar gollfarn ddiannod am y trosedd yn ddiderfyn.

Sylwch y caiff eich sylwadau eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio.

## Deddf Trwyddedu 2003

## HYSBYSEBION AM GEISIADAU – NODIADAU CANLLAW

(1) Rhowch ddisgrifiad bras o’r amrywiad i’r gweithgareddau sydd wedi’u trwyddedu ar hyn o bryd.

(2) Nodwch y dyddiad sydd ddiwrnod ar ôl i’r cais gael ei gyflwyno i’r Awdurdod Lleol.

(3) Nodwch y dyddiad a fydd 10 diwrnod gwaith ar ôl i’r cais gael ei gyflwyno i’r Awdurdod Lleol.